

Cyngor Dinas Casnewydd

Cynnig Ad-drefnu Ysgol

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Cynnig i ehangu Ysgol Gynradd Millbrook o fis Medi 2018

**Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol:
11 Medi 2017 i 22 Hydref 2017**

Diben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Gorffennaf 2013.

Mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Fersiwn Gryno Syml – Plant a Phobl Ifanc
- Llais y Dysgwr
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad
- Estyn
- Copi o'r Holiadur Disgyblion (yn Atodiad A)

Y Cynnig

Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Millbrook o 210 i 315 ac felly creu ysgol barhaol ag 1.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2018.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Estynnwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol i'r rhanddeiliaid canlynol, naill ai drwy ddolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor ac anfon fersiwn electronig o'r pecyn dros yr e-bost neu fel arall drwy anfon copiâu caled o'r deunydd ymgynghori:

- Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Millbrook;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion Ysgol Gynradd Millbrook;
- Disgyblion Ysgol Gynradd Millbrook;
- Penaethiaid a chyrrff llywodraethu'r holl ysgolion cynradd lleol a'r ysgolion hynny yng nghlwestwr Ysgol Uwchradd Casnewydd, h.y. Ysgol Uwchradd Casnewydd, Ysgol Feithrin Kimberley, Ysgol Gynradd Crindau, Ysgol Fabanod yr Eglwys yng Nghymru Malpas, Ysgol Iau yr Eglwys yng Nghymru Malpas, Ysgol Gynradd Llys Malpas, Ysgol Gynradd Parc Malpas, Ysgol Gynradd Monnow, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n rhan o'r cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau Trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy;
- Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau'r athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli athrawon a staff Ysgol Fabanod Millbrook ac Ysgol Iau Millbrook;
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent;
- Y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (neu gorff cyfatebol).

Trefnwyd y digwyddiadau ymgynghori canlynol a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddynt mewn llythyr i rhanddeiliaid. Rhannwyd y wybodaeth hon hefyd ar wefan y Cyngor a'i hamlinellwyd drwy'r ddogfen ymgynghori gyfan.

Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Math o ddigwyddiad
Ysgol Gynradd Millbrook, Parrett Road, NP20 7DQ	Dydd Iau 12 Hydref 2017 10am – 12 canol dydd	Sesiwn galw heibio
Ysgol Gynradd Millbrook, Parrett Road, NP20 7DQ	Dydd Mawrth 17 Hydref 2017 2.00pm – 4.00pm	Sesiwn galw heibio

Cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio yn Ysgol Gynradd Millbrook a daeth cyfanswm o bum rhiant a oedd yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol ond am godi dau bryder ar wahân.

Yn y digwyddiad cyntaf, codwyd problem mewn perthynas â'r traffig ychwanegol a allai godi petai nifer y disgyblion yn cynyddu'n uwch na'r hyn sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd, a'r problemau parcio dilynol o amgylch eiddo yn agos at yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Millbrook yn byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol, ac er yr anogir cerdded i'r ysgol a cherdded adref, mae'n anochel y bydd rhai rhieni yn defnyddio cerbydau i gludo eu plant hyd yn oed os nad yw hynny'n rheolaidd.

Nid ystyrir y bydd y cynnydd yn nifer y disgyblion yn cael unrhyw effaith sylweddol ar hyn, oherwydd rhagwelir y bydd demograffig y disgyblion yn parhau i ddod o ystad Betws, ac felly bydd o fewn pellter cerdded i'r ysgol. Er gwaethaf hyn fodd bynnag, mae'r ysgol yn elwa ar faes parcio ymwelwyr mawr ar y safle y gall rhieni ei ddefnyddio ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Atgoffir rhieni am hyn mewn cylchlythyrau misol gan y Pennaeth.

Yn yr ail ddigwyddiad, cododd un rhiant bryderon dros yr effaith y gallai dosbarthiadau oedran cymysg ei chael ar ddisgyblion. Er bod hyn wedi'i nodi o fewn y ddogfen ymgynghori fel anfantais o ran y cynnig, caiff dosbarthiadau oedran cymysg eu gweithredu'n llwyddiannus mewn nifer o ysgolion Casnewydd ar hyn o bryd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yng nghategori ysgolion "Gwyrdd" neu "Felyn". Mae'r cynnig i symud i 1.5 dosbarth mynediad yn golygu y byddai'r ysgol yn cynyddu o'r trefniant cyfredol o 7 dosbarth i drefniant o 11 dosbarth. Yn draddodiadol pan gaiff y model hwn ei ddefnyddio, mae ysgolion yn gweithredu dau ddogfen Derby'n bach, gyda threfniadau oedran cymysg yn dechrau ym Mlwyddyn 1 / Blwyddyn 2. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion ieuengaf oll yn cael cymorth priodol wrth ddechrau'r ysgol brif ffrwd am y tro cyntaf.

Fersiwn Gryno Syml – Plant a Phobl Ifanc

Cafodd Fersiwn Gryno Syml o'r brif ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi a'i rhannu â rhanddeiliaid. Roedd y ddogfen hon hefyd wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc.

Hefyd, cafodd holiadur plant ei lunio a'i rannu ag Ysgol Gynradd Millbrook i'w ddogfen i ddisgyblion. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad A, er yn anffodus na ddychwelwyd unrhyw ymatebion wedi'u cwblhau i'r Cyngor.

Llais y Dysgwr

Ymwelodd Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg ag Ysgol Gynradd Millbrook ar 17 Hydref 2017 a chyfarfod â chwe aelod o'r Cyngor Ysgol o grwpiau Blynyddoedd Pedwar, Pump a Chwech i drafod y cynnig a rhoi cyfle iddynt rannu eu barn.

Fel grŵp, gwnaethant y sylwadau canlynol:

- Byddai cael mwy o ddisgyblion yn yr ysgol yn dda oherwydd bydd plant yn gwneud mwy o ffrindiau a byddant yn cael y cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn mwy o ddigwyddiadau;
- Bydd dosbarthiadau oedran cymysg yn caniatáu i ddisgyblion wneud ffrindiau yn haws gyda phlant mewn grwpiau blwyddyn gwahanol;
- Mae cynyddu'r ysgol yn raddol o'r dosbarth Derby'n i fyny yn syniad da.

Gwnaethant hefyd godi dau gwestiwn fel a ganlyn, y mae'r ymatebion iddynt isod hefyd:

- **Pam na ellir defnyddio'r ail adain yn yr adeilad iau fel ystafell ddosbarth hefyd i wneud yr ysgol hyd yn oed yn fwy?**

Mae'r ardal ar y llawr cyntaf yn cael ei defnyddio ar gyfer Dechrau'n Deg ar hyn o bryd ac ni ellir lleoli'r ddarpariaeth hon mewn man arall. Hefyd, nid yw'r galw cyfredol na rhagweledig ar gyfer lleoedd ysgol gynradd yn yr ardal yn ddigon sylweddol ar hyn o bryd fel bod angen cynnydd i drefniant 2 ddosbarth mynediad. Mae'r ysgol gynradd agosaf, sef Ysgol Gynradd Monnow, yn ysgol 2 ddosbarth mynediad.

- **A fydd yn rhaid i blant mewn dosbarthiadau oedran cymysg wneud gwaith anoddach neu haws na phlant mewn dosbarthiadau oedran penodol?**

Na, addysgir y cwricwlwm sy'n berthnasol i'w grŵp oedran i'r disgyblion. Gellir cyflawni hyn drwy rannu'r disgyblion yn grwpiau ar gyfer rhannau penodol o'r diwrnod ysgol.

Roedd pob un o'r 6 disgybl a oedd yn bresennol yn meddwl bod y cynnig yn syniad da.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Yn anffodus ni chafwyd unrhyw ymatebion gan rhanddeiliaid heblaw am ymateb Estyn fel y'i manylir isod.

Estyn

Daeth ymateb ffurfiol Estyn i'r casgliad bod "y cynnig yn debygol o gynnal safon bresennol y ddarpariaeth addysg yn yr ardal o leiaf." Fodd bynnag, er yn cydnabod y farn y bydd y cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i staff, nododd Estyn nad oes unrhyw wybodaeth i nodi sut y caiff hyn ei gynnal. Fodd bynnag mae'r Pennaeth wedi amlinellu y bydd y cynnydd mewn capasiti a thwf yr ysgol yn rhoi mwy o gyfleoedd i staff presennol ddatblygu yn broffesiynol. Bydd timau staff yn cydweithio i ddiwallu anghenion yr ysgol sy'n tyfu. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cynllunio a dysgu ysgol gyfan gwell. Yn ogystal, anogir staff i weithio ym mhob rhan o'r ysgol gan rannu arbenigedd mewn ymarfer Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Ar hyn o bryd mae dau aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant ac asesiad ychwanegol i gyflawni cymwysterau Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (HLTA) a Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Hefyd, roedd yr ymateb yn teimlo nad oedd esboniad llawn o'r ffordd y gallai'r dosbarthiadau oedran cymysg arfaethedig effeithio ar addysg y plant. Fodd bynnag mae'r Pennaeth wedi cadarnhau wrth i'r nifer derbyn cyhoeddedig uwch symud drwy'r ysgol, bydd angen ad-drefnu rhai dosbarthiadau yn grwpiau oedran cymysg. Mae gan yr ysgol brofiad eisoes o weithio yn y ffordd hon am fod y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn grwpiau oedran cymysg pan agorodd yr ysgol yn wreiddiol. Mae'r profiad hwn wedi profi nad yw trefniant dosbarthiadau oedran cymysg yn rhwystro cynnydd plentyn oherwydd bydd athrawon yn sicrhau bod gwaith wedi'i gynllunio'n briodol i ddiwallu anghenion pob plentyn.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013), mae'r adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk

Er mwyn gofyn am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon, cysylltwch â Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu anfonwch e-bost at school.reorg@newport.gov.uk



Ehangu Ysgol Gynradd Millbrook

Credwn fod Ysgol Gynradd Millbrook yn ddigon mawr i dderbyn mwy o blant nag y mae ar hyn o bryd ac felly hoffem gynyddu nifer y disgyblion sy'n gallu ymuno â phob grŵp blwyddyn. Cyn gwneud hyn, hoffem wybod eich barn chi ar y cynllun yma.

1. A ydych yn credu fod digon o le yn yr ysgol i hyn ddiwydd?



Na



Ddim yn gwybod



Oes

2. Beth fydd yn dda am hyn, yn eich barn chi?

3. Allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam na ddylen ni wneud hyn?

4. Os byddwn yn gwneud hyn, caiff rhai disgyblion eu haddysgu mewn dosbarth gyda phlant o grwpiau blwyddyn eraill. A ydych yn credu bod hwn yn syniad da neu'n syniad gwael?



Syniad gwael



Ddim yn gwybod



Syniad da

5. Pam rydych yn meddwl hyn?

6. A oes rhywbeth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am ein cynllun?

Diolch am dreulio amser yn rhoi eich barn i ni!

